



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**13 GORFFENNAF 2022**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Cynllun Busnes GwE 2022 – 2023

---

### **1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022 – 2023 i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Ynglwm mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2022 - 2023. Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth, ynghyd â chofrestr risg strategol lefel uchel.

2.2 Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol.

---

2.3 Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

2.4 Cytunwyd ar y blaenoriaethau lefel uchel am 2022-2023 â'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân.

3.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd. Bwriad ein blaenoriaethau yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

3.3 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor.

3.4 Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Amlinellir y cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth a sut maent yn cyfrannu at flaenoriaethau'r awdurdod lleol yn unol â'u Cynlluniau Corfforaethol a'u rhaglennu craffu. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol, a sydd o fewn cylch gwaith GwE. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol i'r Awdurdodau Lleol ar y blaenoriaethau rhanbarthol gan hefyd rhoi trosolwg awdurdod lleol penodol.

3.5 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol o ran y gweithredu, deilliant / effaith a'r proffil gwariant.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2022 – 2023.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

#### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Byrddau Ansawdd Sirol, Tîm GwE, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022 – 2023

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

---

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd GwE yn gwneud defnydd o'i gyllideb yn ystod 2022/23, ac rwyf yn cadarnhau'r sylw ym mharagraff 5 o'r adroddiad blaen sy'n datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.